# Bwletin Menter Môn

mentermon.com
post@mentermon.com

Croeso i'n bwletin newydd. Dyma ble byddwn ni'n dod a'r newyddion diweddaraf i chi am Menter Môn, ein prosiectau a'n gwaith ar draws Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt. Cysylltwch gyda ni am ragor o wybodaeth amdanom ni neu unrhyw un o'n prosiectau. Mae ein gwaith yn syrthio i mewn i dair prif thema:

**Cymuned** **Economi** **Ynni**

## Gŵyl Cefni yn llwyddiant unwaith eto



Roedd Gŵyl Cefni 2025 yn llwyddiant ysgubol eto eleni. Cynhaliwyd yr ŵyl yng nghanol tref Llangefni ddechrau mis Mehefin gyda phedwar diwrnod o ddathliadau. Dechreuodd yr ŵyl gyda cwis cymunedol a helfa drysor ar y cŷd gyda'r Urdd, cyn cloi gyda dau ddiwrnod o gerddoriaeth byw Gymraeg gan amrediad o fandiau lleol a thu hwnt.



Daeth dros 5,000 o bobl i gefnogi'r digwyddiadau trwy gydol yr wythnos, ac ar y cyfan, mae'r ŵyl yn costio £45,000 i'w chynnal. Diolch o galon i bawb a ddaeth i fwynhau, ac yn arbennig i'n gwirfoddolodd, noddwyr a'n hariannwyr.

Mae trafodaeth eang angen ei chynnal ynghylch yr ŵyl y flwyddyn nesaf, ac rydym yn awyddus i glywed eich barn. Cwblhewch yr holiadur byr isod er mwyn rhannu eich meddyliau gyda ni! Diolch.

**Cwblhewch yr holiadur yma.**







# Data BT yn cefnogi penderfyniadau masnachwyr




Fe wnaeth prosiect Stryd Fawr Trefi Smart gynnal astudiaeth o ystadegau defnyddwyr yn y dref arfordirol, Rhyl, gan ddefnyddio Data BT Active Intelligence i olrhain nifer yr ymwelwyr a gwybodaeth ddemograffig. Chanolbwyntiwyd ar bedwar rhan o'r Rhyl: Ffordd y Dyffryn, canol y dref, y promenâd, ac ardaloedd o amgylch Marchnad y Frenhines newydd ar West Parade.  Gall y data ddangos o ble mae pobl yn dod, pa mor hir maen nhw'n aros, roi proffil o gwsmeriaid, a darparu gwybodaeth allweddol i fusnesau.

Daeth ymgyrch Ein Ryl/Our Rhyl a Trefi Smart at ei gilydd i gynnal digwyddiad ymgysylltu busnes yn Lle Gweithio Costigan's ar Stryd Bodfor, Rhyl ddydd Iau 17 Gorffennaf rhwng 6 a 8yh.  Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddod â busnesau ynghyd i gasglu eu hadborth a darparu mewnbwn i strategaeth adfywio gwerth £20 miliwn ar gyfer Rhyl.

**Cliciwch yma am fwy o ddigwyddiadau.**

## Tristian yn troi heriau personol yn gyfle i helpu pobol ifanc

Mae Tristian Griffiths wedi sefydlu Youth Empowerment Mentoring, busnes sy'n meithrin pobol ifanc mwy hyderus, gwydn a llawn cymhelliant. Trwy gyfuniad o brofiad personol a chefndir addysg, mae wedi creu rhaglen sy'n helpu ieuenctid i gyflawni eu potensial.  Mae yn gwneud hyn drwy amrywiaeth o ffyrdd megis sesiynau un-i-un, drwy gynnal gweithdai mewn ysgolion neu cydweithio â busnesau ac elusennau lleol.



Roedd cymorth yr Hwb Menter yn allweddol wrth sefydlu ei fusnes, "Cyn gynted ag y gwnes gyfarfod ag Aled, fy nghynghorydd busnes, roeddwn yn gwybod yn syth y byddai'r bartneriaeth yn llwyddiant. Roedd yr arweiniad a'r gefnogaeth yn amhrisiadwy i mi ar y pryd, a'r gallu i siarad â rhywun yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr fy mod ar y trywydd cywir", meddai Tristian.

**Darganfyddwch mwy o stori Tristian yma.**

# Menter Môn yn bwrw ymlaen â datblygiad hydrogen

Mae cynlluniau i ddatblygu safle cynhyrchu hydrogen ar gyfer gogledd Cymru wedi cymryd cam pwysig ymlaen diolch i bryniant tir ychwanegol i ymestyn safle presennol Hwb Hydrogen Caergybi.

Fel rhan o broses y rhanbarth i drawsnewid i ynni carbon isel a seilwaith cynaliadwy, mae'r safle bellach yn cynnwys 24 erw ym Mharc Cybi, Caergybi.

Mae datblygiad yn cynnwys dau brif safle, gyda chaniatâd cynllunio eisoes yn ei le ar gyfer electrolysydd 1MW ar safle gwreiddiol Hwb Hydrogen Caergybi. Mae'r ail safle newydd yn llawer mwy, a gyda'r potensial i gynyddu faint o hydrogen sy'n cael ei gynhyrchu yn y dyfodol yn sylweddol.

Yn ôl Graham Morley, Rheolwr Prosiect Menter Môn: “Mae hon yn garreg filltir allweddol ar gyfer dyfodol ynni glân yng ngogledd Cymru. Mae ehangu safle Hwb Hydrogen Caergybi yn rhoi’r cyfle i ni gynllunio ar gyfer canolfan fwy, a allai gynhyrchu pump i ddeg gwaith mwy o hydrogen gwyrdd. Gallai hynny wedyn bweru trafnidiaeth, diwydiant a swyddi lleol am flynyddoedd i ddod.”

**Darganfyddwch fwy yma.**




## Enwebiadau Gwobrau i Morlais




Rydym yn falch o gyhoeddi’r newyddion bod Helen Roberts, ein Rheolwr Prosiect ymchwil nodweddion morol, wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr categori ‘Gweithiwr Proffesiynol Natur y Flwyddyn’ yn wobrau ‘Women In Green Business’. Mae’r gydnabyddiaeth haeddiannol hon yn tynnu sylw at ymroddiad a gwybodaeth Helen wrth arwain gwaith amgylcheddol effeithiol.

Ac i ychwanegu at y newyddion gwych, mae Morlais hefyd wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori ‘Busnes Bach y Flwyddyn’. Mae’r enwebiadau hyn yn dyst i waith caled, arloesedd ac ymrwymiad y tîm cyfan. Llongyfarchiadau i bawb sy’n rhan o’r llwyddiant – rydyn ni’n falch iawn o weld eich ymdrechion yn cael eu cydnabod ar lefel genedlaethol!

**Dysgwch fwy am gynlluniau Morlais yn fan hyn.**